# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 28 Chwefror 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Gwilym Owen

**Cyngor Gwynedd**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Susan Davies , Pearl Evans a Bleddyn Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
**3.1 Offer cae chwarae –** y Cyngr. Einir Williams a Godfrey Northam wedi cael dyfynbris a chyfarfod gyda darparwr offer ar gyfer ymestyn cae chwarae Pantdreiniog. Penderfynwyd symud ymlaen gyda hyn a trefnu cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd i drafod ein syniadau.
**3.2 Swyddfa Archwilio Cymru –** angen ymateb i'r adroddiad. Y Pwyllgor Cyllid a'r Cyngr. Griff Morris a Dyfrig Jones i gyfarfod ar gyfer llunio'r ymateb. Trafodwyd hefyd cael cyngor gan Gyngor Gwynedd, ac eu holi am bris i wneud y gwaith Archwilio Mewnol.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2019.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloc Gorffwysfan**- y cloc wedi ei osod.
**5.2 Swyddfa Bost –** busnesau lleol yn dioddef ers i'r Swyddfa Bost gau. Diolch am y trefniadau dros dro, ond mae angen datrysiad ar frys gan bod trigolion lleol yn dioddef.
**5.4 Caeau chwarae** – disgwyl ymateb os yw Cyngor Gwynedd yn fodlon i'r Cyngor Cymuned fod yn gwneud y gwaith arfaethedig i'r caeau pêl-droed. Wedyn bydd angen prisiau ar gyfer y toriadau ychwanegol a cael marcio'r caeau. I'w drafod gyda Swyddog Cyngor Gwynedd pan yn cyfarfod am gae chwarae Pantdreiniog.

**5.5 Gwasanaeth Sul y Cofio** – Y Clerc i drefnu cyfarfod yn y Gwanwyn. Penodwyd y Cyngr. Griff Morris, Linda Brown a Susan Davies i fynychu'r cyfarfod.
**5.6 Cyngerdd Gŵyl Dewi** – y Cyngor yn fodlon cyfrannu tuag at y digwyddiad.
**5.7 Bin halen gwyrdd Maes y Garnedd –** penderfynwyd bod y Cyngor yn barod i fabwysiadu'r 4 bin halen gwyrdd o'r prosiect Eryrod Eira, a'u cyflenwi/adnewyddu fel yr angen.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch am yr adroddiad.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Dim i'w adrodd.

**8. Rhoddion** *(datgan diddordeb pan fo angen)*
Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin Llanllechid | £250 |
| Llais Ogwan | £400 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £100 |
| Eisteddfod Genedlaethol | £50 |
| Clwb Henoed Llanllechid | £150 |
| Clwb Drama'r Llechen Las | £100 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100 |
| Clwb Cymdeithasol Gerlan | £150 |
| Clwb pêl-droed Ieuenctid Bethesda | £100 |
| Nant Ffrancon Brownies | £75 |
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | £400 |
| Theatr Bara Caws | £250 |
| Gwyl Afon Ogwen | £175 |
| Eglwys Crist Glanogwen | £300 |
| CAB Gwynedd | £50 |
| Clwb Rygbi Bethesda | £100 |
| Swyddog Hybu Rygbi | £500 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |
| Canolfan Lôn Abaty | £50 |
| Clwb Criced a Bowlio | £200 |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr | £50 |
| Ffermwyr Ifanc Eryri | £100 |
| | |
| Siop Ogwen | £500 |
| | |
| Caban Gerlan | £1500 |
| Balchder Bro Ogwen | £1000 |

**9. Maes Parcio Gerlan**
Y Cyngor yn cadarnhau bod pryniant y tir a costau cyfreithiol i ddod o'r cronfeydd wrth gefn, ac bydd angen creu cynllun busnes a cais am arian ar gyfer adeiladu'r maes parcio.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2019'
**10.1** E-bost gan Cyngor Gwynedd, Arweinydd Gwaith Cymunedol Ieuenctid ynglŷn a trefniadau'r clwb o fis Ebrill ymlaen. Penderfynwyd yn unfrydol bod y Cyngor yn fodlon ariannu'r gwasanaeth am y flwyddyn i ddod.
**10.2** E-bost gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd-cyfyngiadau parcio arfaethedig. Dim gwrthwynebiad i'r llinellau melyn ar Ffordd Gerlan, Gerlan.
**10.3** E-bost gan Un Llais Cymru ynglŷn a aelodaeth 2019-20. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn ymaelodi.
**10.4** E-bost gan Arolygydd Jon Aspinall, Gorsaf Heddlu Bangor – ymateb Saesneg i'n pryderon am blismona yn y dyffryn.
**10.5** E-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru – copi o gyflwyniad PowerPoint 'Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18'. Siomedig mai uniaith Saesneg oedd y cyflwyniad.
**10.6** E-bost gan y Cyng. Dafydd Meurig ynglŷn a arian sydd ar fin gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned mewn perthynas a'r trosglwyddiad eiddo, yn dilyn penderfyniad Adwy Cyf i ddidymu'r cwmni. Y Cyngor yn hapus i drosglwyddo'r arian i Bartneriaeth Ogwen.
**10.7** E-bost gan Judith Kaufmann ar ran Egni Ogwen – cais i ddefnyddio Llys Dafydd ar gyfer y 'tyfu cymunedol'. Y Cyngor yn gefnogol iawn.
**10.8** E-bost gan y Cyng. Paul Rowlinson – cais am fin halen ar waelod allt Gernant, Braichmelyn (lle roedd un yn arfer bod). Y Cyngor yn fodlon gwneud hyn.
**10.9** E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw – cais i'r Cyngor ystyried y llecyn tir ar Ffordd Pant ar gyfer maes parcio. Y Cyngor angen cwblhau cynlluniau Gerlan yn gyntaf.
**10.10** Lloches bws Braichmelyn – wedi cael dau dyfynbris, un ar gyfer dymchwel y gysgodfan, ac un arall am lenwi'r 'ffenestri' gyda taflenni metel. Penderfynwyd llenwi'r 'ffenestri'.
**10.11** Toriadau gwair ychwanegol – yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, rydym dal i ddisgwyl y dystiolaeth o'r holl doriadau.
**10.12** Llwybr Llechi Eryri – cais i leoli'r tryc yn ganol y gwely plannu. Penderfynwyd bydd hyn yn cymryd gormod o le planhigion, ac i holi am leoliad newydd.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C18/1057/13/LL**<br>Tŷ Dŵr Bach, Gerlan | Newid defnydd adeilad gwaith trin Dŵr Cymru gwag yn fwthyn gwyliau<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd |
| **C18/1178/13/LL**<br>Llangoed, Nant Graen, Braichmelyn | Dymchwel y lolfa bresennol a chodi estyniad newydd yn ei le<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |
| **RMJ/AE0246**<br>Bargain Booze Ltd, Stryd Fawr, Bethesda | Hysbysiad o gais Deddf Trwyddedu 2013<br>**Penderfyniad:** Siop wedi cau |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C18/1159/13/AM**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**C19/0140/13/LL**

| | |
|---|---|
| 3 Ciltrefnus, Gerlan | Estyniad unllawr ar y talcen<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**Cais trwydded**

| | |
|---|---|
| Clwb Rygbi Bethesda | **Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Chwefror) | £271.50 |
| CThEM (Chwefror) | £67.80 |
| British Gas-Llys Dafydd | £71.14 |
| C Jackson-biniau halen | £140.00 |
| M Hughes & Son-Llys Dafydd | £1140.00 |
| Scottish Power- trydan Gorffwysfan | £64.55 |
| Cyngor Gwynedd-tynnu goleuadau | £438.82 |
| EOG-ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |
| C Jackson-halen a lloches bws | £85.00 |
| Partneriaeth Ogwen-halen | £297.48 |
| Partneriaeth Ogwen - nwyddau Llys Dafydd | £40.34 |